



Hoffem ddweud wrthyfych am ffordd newydd o gynnig ein cartrefi,
a fydd yn eich galluogi i reoli le rydych yn dymuno byw.

Trwy ddefnyddio ein gwasanaeth **Canfod Cartref** newydd,

- Cewch weld pa gartrefi sydd ar gael
- Cewch benderfynu os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y tŷ gwag hwnnw
- Cewch weld pa fand blaenoriaeth oedd gan yr ymgeisydd llwyddiannus

Bydd y gosodiadau'n parhau i gael eu dyrannu i'r unigolion ar ein cofrestr tai sydd yn y prif fand blaenoriaeth ac sydd wedi aros hiraf (a blaenoriaeth ychwanegol i bobl â chysylltiadau lleol a chymunedol).

Cam 1 Mewngofnodi

Bydd y manylion canlynol yn cael eu hanfon at bob ymgeisydd sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd:

- Eich cyfeirnod Tai
- Eich cyfrinair

Mewngofnodwch drwy glicio ar y botwm uchaf ar y sgrin cartref.



Gofynnir i chi ddiweddarau eich manylion i ni wneud eich cais yn weithredol. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr presennol ailgofrestru cyn i ni ganiatáu i ymgeiswyr newydd ymuno.

Cam 2 Chwilio am eich cartref

Bob wythnos byddwn yn hysbysebu'r holl gartrefi gwag ar ein gwefan rhwng dydd Gwener a dydd Llun. Neu os oes well gennych siarad wyneb yn wyneb â rhywun, bydd canolfannau Cyswllt y Cyngor hefyd yn gallu rhoi holl fanylion y cartrefi sydd ar gael. Gallwch drefnu apwyntiad gyda'r Hwb drwy ffonio 01267 234567

Gallwch drefnu apwyntiad gyda'r **Hwb** drwy ffonio **01267 234567**.

Sut ydwr i'n ymuno?

Cysylltwch â ni drwy ffonio

01554 899389, byddwn yn gofyn ychydig o gwestiynau a chyn belled â'ch bod yn gymwys i ymuno â'r gofrestr, byddwn yn rhoi eich manylion mewngofnodi er mwyn eich rhoi chi ar ben ffordd.



Cam 3 Cyflwyno cynnig am eich ffefryn

Mae cyflwyno cynnig yn dangos bod diddordeb gennych yn y cartref. Os ydych yn gweld cartref sydd o ddiddordeb i chi, gallwch gyflwyno cynnig amdano.

Nid yw cynnig yn cynnwys arian a gallwch gyflwyno cynnig unrhyw bryd, boed yn gynnar yn y bore yn eich cartref neu am hanner nos i ffwrdd ar eich gwyliau; mae'r system yn gweithio dros y we, felly gallwch gyflwyno cynnig pan fydd yn gyfleus i chi. Bob wythnos, gallwch gyflwyno cynnig hyd at ganol nos ddydd Llun.

Gallwch ond gyflwyno cynnig os ydych wedi cofrestru gyda ni ac os ydych yn gymwys i wneud cynnig am y cartref.

Cam 4 Llwyddiant

Y 'cynigydd' llwyddiannus fydd yr un yn y band uchaf sydd wedi bod ar y gofrestr am yr amser hwyaf. Bydd cysylltiad lleol a chymunedol hefyd yn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i chi.

Byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd llwyddiannus ar ôl i'r cyfnod cynnig ddod i ben, felly mae'n bwysig bod gennym eich rhif ffôn cywir.

Os na allwn gysylltu â chi, byddwn yn gwneud cynnig i'r ymgeisydd nesaf ar y rhestr. Byddwn yn trefnu ymweliad â'r cartref ac efallai y byddwn yn dymuno ymweld â chi er mwyn cynnal rhai gwiriadau a chadarnhau eich manylion a'ch amgylchiadau.

Cam 5 Y Cynnig


Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch yn gallu ymweld â'r eiddo. Ar ôl i'r holl fanylion gael eu cadarnhau, cynigir y cartref i chi a bydd rhaid i chi ei dderbyn neu'i wrthod.

Os ydych yn gwrthod y cartref heb reswm da, byddwn yn tynnu eich enw o'r gofrestr nes bod eich amgylchiadau'n newid. Mae gwrthod cartref heb reswm da yn oedi'r broses ddyrannu gan achosi cynnydd yn y costau ac amser aros hwy, felly oni bai eich bod yn fodlon derbyn y cartref dylech feddwl yn ofalus cyn cyflwyno cynnig.

Cam 6 Adborth

Bydd canlyniadau pob gosodiad ar gael ar ein gwefan. Bydd hyn yn dangos nifer y cynigion a wneir bob wythnos, y dyddiad ymgeisio llwyddiannus a'r band. Ni fydd manylion personol yn cael eu rhannu am yr ymgeisydd llwyddiannus. Gallwch weld bod yr holl ddyraniadau wedi'u gwneud yn deg, yn unol â meini prawf ein Polisi Dyrannu cyhoeddus.

Yn ogystal, gallwch weld faint o gartrefi sydd ar gael bob wythnos gan gynnwys y maint a'r lleoliad. Y gobaith yw y bydd hyn yn datblygu dealltwriaeth well o'r nifer cyfyngedig o gartrefi sydd ar gael ac yn helpu ymgeiswyr i wneud penderfyniadau am eu cartrefi ar sail tystiolaeth wirioneddol.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch hyn neu os oes angen cyngor brys ynghylch tai arnoch, cysylltwch â ni drwy ffonio

01554 899389.

Noder - Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod os yw eich manylion cyswllt wedi newid... Os na allwn gysylltu â chi, ni allwn gynnig unrhyw beth i chi!